

PWYLLGOR CYNLLUNIO

Dydd Iau, 12 Rhagfyr 2019

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd A. Lenny (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr:

S.M. Allen, J.M. Charles, I.W. Davies, J.A. Davies, P.M. Edwards, W.T. Evans, S.J.G. Gilasbey, J.K. Howell, J.D. James, C. Jones, D. Jones, H.I. Jones, M.J.A. Lewis, K. Madge, B.D.J. Phillips, G.B. Thomas and J.E. Williams

Hefyd yn bresennol:

G. Morgan, Ymgynhorwr Fframwaith i'r Cyngor (Atkins)

Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:

J. Edwards, Rheolwr Datblygu & Treftadaeth Adeiledig
S. Murphy, Uwch-gyfreithiwr
Z.A. Evans, Uwch-dechnegydd (Cyswllt Cynllunio)
J. Thomas, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu (y De)
H. Rice, Swyddog Rheoli Datblygu
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Y Siambr, Neuadd y Sir - 10.05 yb - 12.15 yp

[**Noder:** Am 11:10am, gohiriodd y Cadeirydd y cyfarfod am 15 munud i geisio cyfarwyddyd gan yr Uwch-gyfreithiwr.]

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Enw	Rhif y Cofnod	Y Math o Fuddiant
Y Cynghorydd Carys Jones	5 - Cais W/38933 - Newid defnydd tŷ allan diangen yn un uned breswyl, adeilad ym Mharc y Cnwc, Heol yr Hen Ysgol, Llansteffan, Caerfyrddin, SA33 5HA.	Mae gan y Cynghorydd Jones fuddiant personol gan fod yr ymgeisydd yn ffrind agos iddi.

3. RHANBARTH Y DWYRAIN - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

3.1 PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ganiatáu'r cais cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau y manylwyd arnynt yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-

E/38716	Materion a gadwyd yn ôl - Uned ddiwydiannol, maes parcio a gwaith seilwaith cysylltiedig - W/33578 (amrywio amod 3 ar ganiatâd cynllunio amlinellol W/23782 a gymeradwywyd ar 29/11/2012) (estyniad o ran amser o 9 mlynedd o ddyddiad y
---------	--

caniatâd amlinellol) ar dir y tu cefn i Continental Leisure, Heol Parc Mawr, Cross Hands, Llanelli, SA14 6RE

3.2 PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r cais cynllunio canlynol yn groes i argymhelliad y Pennaeth Cynllunio, yn amodol ar hysbysiad gwyro ac amodau a fydd yn cael eu drafftio gan y Pennaeth Cynllunio:-

E/39533	<p>Byngalo fforddiadwy wedi'i addasu ar gyfer pobl ag anableddau, gyda storfa amaethyddol ar wahân ar dir ger Maesylynn, Salem, Llandeilo, SA19 7NA</p> <p>Darllenodd yr Aelod Lleol ddatganiad ar ran yr ymgeisydd. Wrth i'r datganiad gael ei ddarllen, cafodd gwe-ddarlliediad y cyfarfod ei oedi gan fod y datganiad yn cynnwys gwybodaeth bersonol.</p> <p>Yn dilyn trafodaethau, penderfynwyd caniatáu'r cais yn groes i argymhelliad y Pennaeth Cynllunio, ar sail y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none">• bod y datblygiad arfaethedig yn cydweddu ag arddull adeiladau presennol yn y cyffiniau• bod caniatáu'r cais yn hyrwyddo bywyd gwledig• bod y cais yn cefnogi hawliau dynol a chydraddoldeb• angen lleol ac amgylchiadau cymdeithasol.
----------------	---

4. RHANBARTH Y DE - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

4.1 PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ohirio ystyried y cais cynllunio canlynol er mwyn i'r Pwyllgor ymweld â'r safle:-

S/38285	<p>Adeiladu datblygiad preswyl sy'n cynnwys hyd at 210 o unedau ynghyd â gwaith tirweddu a seilwaith cysylltiedig ar dir yn Noc y Gogledd, Seaside, Llanelli, SA15 2LY</p> <p>Cafwyd sylw gan yr Aelod Lleol yn gofyn i'r Pwyllgor ymweld â'r safle er mwyn gweld yr effaith bosibl ar y briffordd a'r amwynderau lleol.</p> <p>RHESWM: Galluogi'r Pwyllgor i gael golwg ar y datblygiad arfaethedig er mwyn asesu'r effaith ar y briffordd a'r amwynderau lleol.</p>
----------------	--

4.2 PENDERFYNWYD caniatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau y manylwyd arnynt yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-

S/39456	<p>37 o breswylfeydd (fforddiadwy) ar dir i'r gogledd o Glwb Rygbi Tŷ-croes, Heol Pen-y-garn, Tŷ-croes, Rhydaman, SA18 3NY</p> <p>Cafwyd sylw gan Gyngor Cymuned Llanedi yn gwrthwynebu'r datblygiad arfaethedig gan ailbwysleisio'r gwrthwynebiadau y manylwyd</p>
----------------	--

	<p>arnynt yn adroddiad y Pennaeth Cynllunio, ac roedd y prif feysydd a berai bryder fel a ganlyn:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Maint y datblygiad 2. Nid oedd y datblygiad o fewn y CDLI 3. Materion presennol o ran dŵr wyneb/llifogydd 4. Dim galw am dai fforddiadwy yn Nhŷ-croes <p>Ymatebodd yr Uwch-swyddog Rheoli Datblygu a'r ymgeisydd i'r materion a godwyd.</p>
S/39662	Garej ar wahân yng Nghlos Cae Derw, Llangennech, Sir Gaerfyrddin, SA14 8WF

5. RHANBARTH Y GORLLEWIN - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

PENDERFYNWYD caniatáu'r cais cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau y manylwyd arnynt yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-

W/38933	<p>Newid defnydd tŷ allan diangen yn un uned breswyl wrth adeilad ym Mharc y Cnwc, Heol yr Hen Ysgol, Llansteffan, Caerfyrddin, SA33 5HA.</p> <p>[Sylwer: Gan ei bod wedi datgan buddiant yn y mater hwn yn gynharach, gadawodd y Cynghorydd C. Jones Siambr y Cyngor cyn i'r Pwyllgor ystyried y mater a phenderfynu arno].</p>
W/39362	<p>Ailraddio'n rhannol y llawr caled estynedig a gadwyd ger tyrbin T6 drwy gyflwyno 7 grid gwartheg yn Fferm Wynt Alltwalis (Statkraft), Heol Coedllwydion, Alltwalis, Caerfyrddin, SA32 7ED</p>

6. COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 14EG TACHWEDD, 2019

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL Iofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 14 Tachwedd 2019 yn gywir.

CADEIRYDD

DYDDIAD

[SYLWER: Mae'r cofnodion hyn yn dilyn trefn y materion oedd ar agenda'r cyfarfod, a allai fod yn wahanol i drefn y materion mewn unrhyw weddarlliediad gan y byddid wedi ymdrin gyntaf ag unrhyw geisiadau yr oedd aelodau o'r cyhoedd yn bresennol i siarad amdanynt.]